# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Cap-coch
# School Street
# Abercwmboi
# Aberdâr
# CF44 6AD

# Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2013

# gan

# Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 02/05/2013**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Cap-coch yn Abercwmboi, yng Nghwm Cynon rhwng Aberdâr ac Aberpennar. Mae bron pob un o'r disgyblion yn byw yn lleol, ac ychydig iawn ohonynt sydd yn dod o'r ardal gyfagos. Daw disgyblion o gefndiroedd amrywiol. Mae cartrefi wedi eu perchenogi'n breifat a chartrefi sy'n cael eu rhentu yn yr ardal, ac mae'r ardal wedi'i dynodi yn Ardal Cymunedau yn Gyntaf. Mae gan ryw 40% o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn uwchlaw cyfartaleddau lleol a chenedlaethol ac wedi codi'n gyson am y pedair blynedd diwethaf.

Mae 134 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd, gan gynnwys 30 yn y dosbarth meithrin. Mae saith dosbarth, gan gynnwys dau ddosbarth arbenigol ar gyfer disgyblion ar draws yr awdurdod lleol. Mae un dosbarth ar gyfer disgyblion â nam ar y clyw a'r dosbarth arall ar gyfer disgyblion ag anawsterau lleferydd ac iaith. Mae chwech o athrawon amser llawn a phedwar o athrawon rhan-amser yn yr ysgol. Cânt eu cynorthwyo gan chwe aelod o staff cymorth dysgu amser llawn a phedwar aelod staff cymorth dysgu rhan-amser. Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion i'r dosbarth meithrin yn dair oed.

Ar hyn o bryd, nid oes gan yr ysgol unrhyw ddisgyblion sy'n 'cael gofal' gan yr awdurdod lleol nac unrhyw ddisgyblion sy'n cael cymorth ar gyfer Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae'r ysgol yn nodi bod gan ryw 20% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol ac ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o angen addysgol arbennig. Saesneg yw prif iaith y cartref i'r rhan fwyaf o ddisgyblion. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n dod o gefndir ethnig lleiafrifol ac nid oes bron unrhyw ddisgyblion yn defnyddio'r Gymraeg fel eu mamiaith. Ni chafodd unrhyw ddisgyblion eu gwahardd yn y flwyddyn ddiwethaf.

Penodwyd y pennaeth ym Medi 2009 a'r dirprwy bennaeth ym Medi 2012.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Cap-coch yn 2012-2013 yn golygu mai'r gyllideb yw £4,946 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd yn Rhondda Cynon Taf yw £6,197 a'r isafswm yw £2,561. Mae Ysgol Gynradd Cap-coch yn y chweched safle o'r 113 o ysgolion cynradd yn Rhondda Cynon Taf o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Rhagorol** |

**Perfformiad presennol**

Mae'r farn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni'n dda;
- bod bron yr holl addysgu yn dda neu'n well;
- bod staff yn marcio ac yn asesu gwaith disgyblion yn effeithiol iawn; a
- bod disgyblion yn datblygu eu gallu i wella eu gwaith eu hunain yn dda iawn.

**Rhagolygon gwella**

Mae'r farn gyffredinol ar gyfer rhagolygon gwella'r darparwr yn rhagorol oherwydd:

- bod y pennaeth yn darparu arweinyddiaeth glir iawn a hynod effeithiol;
- bod gan yr ysgol weithdrefnau hunanarfarnu trylwyr:
- bod yr ysgol wedi defnyddio ei chysylltiadau â'i theulu i wneud gwelliannau sylweddol i safonau cyflawniad a lles disgyblion ac ar ymglymiad rhieni yn nysgu eu plant;
- bod yr ysgol yn targedu gwelliannau yn effeithiol; a
- bod hanes diweddar hynod effeithiol o godi safonau a gwella darpariaeth.

## Argymhellion

A1 Codi safonau darllen disgyblion

A2 Gwella defnydd disgyblion o'r Gymraeg y tu allan i wersi Cymraeg

A3 Gwella presenoldeb

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig yn disgrifio'r arfer ragorol a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Dros y tair blynedd diwethaf, mae safonau cyflawniad disgyblion wedi codi'n sylweddol o gymharu ag ysgolion eraill. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn dechrau'r ysgol gyda medrau islaw'r medrau a ddisgwylir gan ddisgyblion o oedran tebyg. Erbyn iddynt adael yr ysgol, maent wedi gwneud cynnydd da yn eu dysgu ac yn cyflawni'n dda.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n ofalus yn y dosbarth. Maent yn rhoi sylw gofalus i'r hyn y mae staff yn ei ddweud ac yn ateb cwestiynau yn hyderus. Mae disgyblion hŷn yn cyfweld ag ymwelwyr yn frwdfrydig ac yn defnyddio ystod dda o gwestiynau i ddod o hyd i wybodaeth. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y dosbarthiadau darpariaeth adnoddau yn cyfathrebu'n dda, yn enwedig wrth holi cwestiynau i'w gilydd ac i staff.

Mewn gwersi, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n dda at ystod o ddibenion a chynulleidfaoedd. Yn y Cyfnod Sylfaen, maent yn gwneud cynnydd cyflym o ran gallu ysgrifennu llythrennau, geiriau a brawddegau. Mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o seiniau ac enwau llythrennau. Mae hyn yn eu helpu i sillafu geiriau cyffredin yn dda a bod yn fwy cywir wrth ddyfalu geiriau anodd. Mae llawysgrifen yn dda iawn ar y cyfan. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ffurfio eu llythrennau yn gywir ac yn cyflwyno eu gwaith yn ddestlus.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn adeiladu'n dda ar y medrau hyn ac yn defnyddio eu hysgrifennu yn effeithiol i esbonio eu meddyliau a'u syniadau ym mhob pwnc. Erbyn diwedd y cyfnod allweddol hwn, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n ddarllenadwy mewn arddull ysgrifen redeg ffurfiedig. Defnyddiant eirfa eang a diddorol, ac mae disgyblion mwy abl yn defnyddio ystod dda o arddulliau ysgrifennu gwahanol yn dda i ennyn diddordeb y darllenydd. At ei gilydd, mae llawer o ddisgyblion yn sillafu'n gywir ac yn defnyddio atalnodi'n gywir.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion safonau darllen digonol. Mae disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn defnyddio eu gwybodaeth am lythrennau a seiniau yn dda i ddarllen geiriau syml a gwneud dyfaliadau synhwyrol gyda'r rhai anos. Ar draws yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn darllen yn rhugl ond cyfyngedig yw eu defnydd o fynegiant neu atalnodi. Mae ganddynt ddealltwriaeth gyffredinol o'r hyn y maent yn ei ddarllen, ond ni allant esbonio'n ddigon da beth allai ddigwydd nesaf mewn stori neu pam mae cymeriadau yn ymddwyn mewn ffyrdd arbennig. Prin yw'r disgyblion sy'n darllen yn rheolaidd o ran pleser neu'n siarad yn hyderus am y llyfrau neu'r awduron y maent yn eu hoffi. Gall y rhan fwyaf ohonynt ddefnyddio geiriadur yn briodol. Gall llawer o ddisgyblion Blwyddyn 6 fwrw golwg cyflym dros destun i ddethol y prif bwyntiau neu ddefnyddio'r rhyngrwyd i ddod o hyd i wybodaeth yn llwyddiannus.

Yn gyffredinol, mae disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn dda mewn pynciau heblaw mathemateg. Mae'r arfer hon yn arbennig o dda ym Mlwyddyn 5 a Blwyddyn 6 lle mae disgyblion yn dadansoddi a dehongli data mewn gwyddoniaeth yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, o'r dosbarth meithrin ymlaen, yn defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn dda iawn. Maent yn cymhwyso eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth am TGCh yn effeithiol iawn ym mhob pwnc. Mae disgyblion yn defnyddio ystod o offer yn briodol, gan gynnwys recordiadau sain a gweledol, i wella ansawdd a chyflwyniad eu gwaith.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n cael cymorth ychwanegol â'u dysgu, gan gynnwys y rhai yn y dosbarthiadau darpariaeth adnoddau, yn gwneud yn dda ac yn gwneud cynnydd da. Mae'r disgyblion hynny sy'n cael prydau ysgol am ddim yn cyflawni cystal â disgyblion eraill yn gyffredinol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion mwy abl yn cyflawni'n dda. Mae niferoedd isel y bechgyn a'r merched ym mhob grŵp blwyddyn yn golygu bod cymharu eu cyflawniadau yn annibynadwy.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau dysgu Cymraeg ac yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddefnyddio'r iaith. Maent yn deall y Gymraeg a ddefnyddir gan staff yn dda. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn siarad Cymraeg yn hyderus mewn gwersi. Mae eu hynganiadau Cymraeg yn dda. Erbyn diwedd Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn darllen darnau cyfarwydd yn glir ac mae'r mwyafrif ohonynt yn dangos dealltwriaeth ddigonol o'r testun. Prin yw'r disgyblion sy'n defnyddio eu medrau Cymraeg yn effeithiol y tu allan i wersi Cymraeg.

Gan fod nifer y disgyblion yn fach o bryd i'w gilydd, rhaid trin canlyniadau asesiadau disgyblion yn ofalus oherwydd gall canlyniadau un disgybl effeithio'n sylweddol ar berfformiad yr ysgol.

Yn 2012, roedd deilliannau disgyblion yn yr asesiadau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen islaw deilliannau ysgolion tebyg (ysgol y mae ei disgyblion yn cael canran debyg o brydau ysgol am ddim). O gymharu ag ysgolion eraill yn ei theulu (yr ysgolion hynny sy'n wynebu heriau tebyg), roedd perfformiad yr ysgol ychydig yn uwch na'r disgwyl.

Yn 2012, roedd deilliannau disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn dda iawn ac mae tuedd gynyddol o welliant dros y pedair blynedd diwethaf. Ar gyfer y lefel 4 ddisgwyliedig a'r lefel 5 uwch, roedd yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg yn gyson. Yn aml, roedd deilliannau disgyblion y gorau yn y teulu.

**Lles: Da**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn awyddus i ddysgu ac maent yn mwynhau dod i'r ysgol. Maent yn llawn cymhelliant ac maent eisiau gwneud yn dda. Mewn gwersi, maent yn dechrau gweithio'n gyflym ac yn gweithio'n ddiwyd am gyfnodau hir. Maent yn ymddwyn yn dda. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweithio'n effeithio ar eu pen eu hunain neu mewn grwpiau i ddatrys problemau. Mae eu gallu i wella eu dysgu eu hunain, yn enwedig ym Mlwyddyn 5 a Blwyddyn 6, yn gryfder gwirioneddol. Mae'r disgyblion hyn, yn benodol, yn meddu ar fedrau hynod ddatblygedig o ran deall yr hyn y maent yn ei wneud yn dda ac wrth ddewis y camau nesaf y mae angen iddynt eu cymryd i wella eu gwaith.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac maent yn deall pwysigrwydd bwyta a byw yn iach. Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan yn frwd mewn gweithgareddau allgyrsiol a gynigir iddynt.

Mae'r cyngor ysgol wedi helpu i brynu ystod dda o gyfarpar ac offer awyr agored y mae disgyblion yn gwneud defnydd da ohono amser egwyl. Maent wedi datblygu rheolau dosbarth ar ymddygiad hefyd.

Mae llawer o ddisgyblion yn ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol ac yn cyflawni eu dyletswyddau yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol fel codi sbwriel, helpu creu gardd gymunedol, a phlannu coed yn yr ardal leol. Mae'r rhain yn helpu i fagu ymdeimlad o falchder yn eu hardal ymhlith disgyblion.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd yn brydlon. Ar ôl cynnydd cyson am dair blynedd, disgynnodd cyfradd presenoldeb yr ysgol yn 2012 i ryw 93%, ac mae'r gyfradd hon yn yr hanner isaf o gymharu â chyfraddau ysgolion tebyg.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod dda o brofiadau dysgu diddorol sy'n bodloni anghenion yr holl ddisgyblion, gan gynnwys y rhai mewn dosbarthiadau darpariaeth adnoddau. Mae staff yn y Cyfnod Sylfaen yn benodol yn cydweithio'n dda i gynllunio rhaglenni dysgu arloesol. Mae'r cwricwlwm eang a chytbwys yn adeiladu'n systematig ar yr hyn y mae disgyblion yn ei wybod ac yn gallu ei wneud. Mae'r ystod eang o weithgareddau allgyrsiol yn cefnogi'r cwricwlwm a addysgir yn effeithiol.

Mae'r holl athrawon yn cynnig cyfleoedd da i ddisgyblion ddatblygu eu medrau siarad a gwrando, ac iddynt ysgrifennu'n annibynnol mewn arddulliau gwahanol ac ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd yn y diwrnod ysgol i ddisgyblion ddarllen ar eu pen eu hunain neu mewn grwpiau. Mae hyn yn cyfyngu eu cynnydd i ddod yn ddarllenwyr hynod fedrus. Mae darpariaeth dda ar gyfer medrau rhifedd a TGCh disgyblion.

Mewn gwersi, mae darpariaeth dda ar gyfer yr iaith Gymraeg. Mae staff yn siarad Cymraeg yn rheolaidd ac yn annog disgyblion i ddefnyddio adnoddau darllen Cymraeg yn annibynnol. Gwneir defnydd da o'r ardal leol a'i phobl, fel arlunydd lleol ac ymweliadau â Chaerdydd ac amgueddfa lofaol dreftadol Gymreig, i helpu disgyblion i gael dealltwriaeth dda o ddiwylliant a hanes Cymru.

Mae darpariaeth briodol i ddisgyblion ddysgu am faterion amgylcheddol fel ailgylchu ac arbed ynni. Caiff disgyblion gyfleoedd addas i ddysgu am wledydd eraill a'u diwylliannau.

**Addysgu: Da**

Mae bron yr holl addysgu yn dda, ac mae'n rhagorol mewn ychydig iawn o wersi. Yn y rhan fwyaf o wersi, mae athrawon yn cynllunio'n effeithiol i fodloni anghenion pob disgybl. Maent yn herio disgyblion yn llwyddiannus ac yn eu hysbrydoli i wneud yn

dda. Maent yn paratoi gweithgareddau diddorol a difyr ac yn rheoli ymddygiad disgyblion yn effeithiol. Mae athrawon yn defnyddio holi medrus ac yn defnyddio adnoddau o ansawdd uchel i helpu disgyblion i gael dealltwriaeth gliriach o'r hyn y maent yn ei ddysgu. Mae oedolion ychwanegol yn yr ystafell ddosbarth yn rhoi cymorth da i ddisgyblion ac athrawon.

Mewn rhai gwersi, nid yw athrawon yn gwneud i'r wers symud yn ddigon cyflym nac yn rhoi digon o amser i ddisgyblion feddwl am eu hatebion cyn iddynt ateb cwestiynau.

Mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn drylwyr. Maent yn rhoi adborth da iddynt ar yr hyn y maent wedi'i wneud yn dda ac ar yr hyn y mae angen iddynt ei wneud nesaf i wella. Ym mhob dosbarth, mae staff yn cynnwys disgyblion yn llwyddiannus mewn asesu eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill. Yn yr arfer orau un, mae staff yn cynnwys disgyblion yn helaeth mewn arfarnu eu gwaith eu hunain ac mewn cyfrannu at gynllunio gwersi a gosod targedau.

Mae staff yn olrhain perfformiad a lles disgyblion yn effeithiol, ac maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i nodi'r ffordd orau y gellir helpu a chefnogi disgyblion. Maent yn asesu a safoni gwaith disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn gadarn. Caiff rhieni adroddiadau o ansawdd da am gynnydd eu plentyn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan yr ysgol ddarpariaeth dda ar gyfer iechyd a lles, datblygiad moesol, diwylliannol a chymdeithasol disgyblion. Mae'r ysgol yn hyrwyddo prydlondeb a phresenoldeb rheolaidd yn gryf. Mae polisïau trylwyr ac effeithiol i hyrwyddo ymddygiad da ac atal bwlio.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gydag ystod dda o asiantaethau arbenigol i gefnogi anghenion emosiynol, ymddygiadol, corfforol ac addysgol disgyblion, yn enwedig y rhai yn y dosbarthiadau darpariaeth adnoddau. Mae'r trefniadau hyn yn cyfrannu'n dda at ddatblygiad a lles disgyblion ac yn cefnogi eu dysgu yn effeithiol.

Mae darpariaeth effeithiol ar gyfer pob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, a gwnânt gynnydd da yn yr ysgol. Mae staff cymorth hyfforddedig yn cynnig lefel dda o gymorth i unigolion a grwpiau bach o ddisgyblion. Mae'r ysgol yn hysbysu rhieni yn dda ac yn eu cynnwys mewn unrhyw benderfyniadau am eu plentyn.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn lle cytûn a chyfeillgar. Mae staff yn creu ethos cadarnhaol, cefnogol a gofalgar iawn lle mae pob aelod o gymuned yr ysgol yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi. Caiff pob disgybl yr un cyfle i gymryd rhan yn yr holl feysydd dysgu a'r ddarpariaeth. Mae disgyblion yn y dosbarthiadau darpariaeth adnoddau a'r dosbarthiadau prif ffrwd yn elwa ar gyfleoedd da i weithio ochr yn ochr â'i gilydd.

Gwnaed newidiadau sylweddol i'r safle dros y tair blynedd diwethaf, gan arwain at amgylchedd dysgu mwy diogel a saffach. Caiff adeiladau'r ysgol eu cynnal yn dda gydag ystafelloedd dosbarth golau sy'n cynnwys offer da. Mae'r amgylchedd awyr agored wedi cael ei drawsnewid ac mae'n lle chwarae ansawdd da ar gyfer yr ysgol gyfan erbyn hyn. Yn gyffredinol, mae ansawdd yr adnoddau yn dda ac yn gweddu'n dda i anghenion disgyblion.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn cynnig arweinyddiaeth a rheolaeth o ansawdd da i'r ysgol. Dros y tair blynedd diwethaf, mae ei waith ymroddedig wedi golygu bod disgyblion yn gwneud cynnydd sylweddol yn eu dysgu a chafwyd newidiadau nodedig i adeilad ac adnoddau'r ysgol. Mae ganddo ef a'r tîm arweinyddiaeth sefydledig weledigaeth glir ar gyfer gwella'r ysgol sy'n cael ei rhannu gan bawb.

Mae gan y tîm arweinyddiaeth rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir ond cyfyngedig fu effaith y mentrau y maent wedi'u cyflwyno hyd yn hyn. Mae perthnasoedd da rhwng staff yn cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd dysgu cyfan.

Caiff llywodraethwyr eu hysbysu'n briodol am berfformiad yr ysgol. Defnyddiant y wybodaeth hon yn briodol i helpu gosod cyfeiriad strategol yr ysgol a herio tanberfformio. Maent yn cyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol a statudol yn effeithiol.

Mae polisïau a mentrau, gan gynnwys y rhai sy'n bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, yn cael eu rhoi ar waith yn gyson, gan arwain at welliannau yn y meysydd hyn, yn enwedig o ran mynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol.

**Gwella ansawdd: Rhagorol**

Mae'r broses hunanarfarnu a chynllunio datblygiad yr ysgol yn rhan bwysig iawn a rheolaidd o fywyd gwaith yr ysgol. Mae gan yr uwch dîm arweinyddiaeth ddarlun clir iawn o berfformiad yr ysgol. Mae ystod eang o weithgareddau hunanarfarnu trylwyr, gan gynnwys arsylwadau gwersi, craffu ar waith disgyblion a dadansoddi data'n drylwyr.

Caiff y wybodaeth a gesglir ei defnyddio yn effeithiol iawn i lunio cynllun gwella ysgol clir a manwl sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau disgyblion. Mae blaenoriaethau ar gyfer gwella yn glir a mesuradwy a dyrannwyd costau, graddfeydd amser ac adnoddau priodol ar eu cyfer. Mae arweinwyr yn monitro mentrau yn helaeth ac yn adolygu cynnydd yn drylwyr iawn yn erbyn y targedau a osodwyd.

Mae'r ysgol wedi gwneud defnydd rhagorol o'i theulu i herio ei pherfformiad ei hun a chodi safonau yn sylweddol. Fe'i dechreuwyd gan y pennaeth, ac mae'r ysgol wedi cyfarfod â'i theulu yn rheolaidd i asesu pa mor dda y mae'n gwneud a defnyddio enghreifftiau o arfer orau gan ysgolion eraill. Mae'r mentrau a gyflwynwyd yn yr ysgol wedi cael effaith sylweddol iawn ar godi safonau cyflawniad a gwella lles disgyblion, ac ar ymglymiad rhieni yn nysgu eu plant.

Trwy weithio gydag ysgolion lleol ar dri phrosiect, mae'r ysgol wedi dechrau mynd i'r afael â safonau mewn gwyddoniaeth a chyflawniad bechgyn yn llwyddiannus, a gwella cysylltiadau rhwng addysg gynradd ac uwchradd.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol bartneriaethau effeithiol yn y gymuned leol a gydag ystod o asiantaethau a gwasanaethau sy'n cefnogi lles disgyblion ac yn helpu i godi eu safonau cyflawniad.

Mae cysylltiadau da ag ysgol uwchradd leol, sy'n galluogi disgyblion i drosglwyddo yno yn ddidrafferth. Mae partneriaeth gyda busnes lleol wedi rhoi cymorth ariannol ac ymarferol o ran ailddylunio'r mannau yn yr awyr agored yn yr ysgol, a darparu adnoddau ar eu cyfer. Mae cysylltiadau gyda chlwb pêl-droed proffesiynol lleol wedi helpu datblygu medrau disgyblion a'u hagweddau at ffyrdd iach o fyw.

Mae partneriaethau gyda rhieni wedi cael eu datblygu'n gryf trwy fentrau a gyflwynwyd gan yr ysgol. Mae rhieni yn ymfalchïo yn yr ysgol ac yng ngwaith eu plant. Mae'r ysgol wedi gwella ansawdd a rheoleidd-dra cylchlythyrau i rieni. Mae'n defnyddio ystod o gyfryngau cymdeithasol yn llwyddiannus hefyd i gynnwys rhieni a'u hysbysu. Cynhelir ystod o ddosbarthiadau yn yr ysgol ar gyfer rhieni, fel dosbarthiadau Cymraeg a ffitrwydd. Mae'r rhain yn annog rhieni i gymryd rhan ym mywyd yr ysgol a dangos mwy o ddiddordeb yn addysg eu plentyn. Sefydlwyd grŵp codi arian gan y rhieni ac fe gaiff ei gefnogi'n dda.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn rheoli cyllideb yr ysgol yn hynod effeithiol i gael yr enillion gorau o gyllid. Mae penderfyniadau'r ysgol ynghylch gwariant wedi eu cysylltu'n dda â blaenoriaethau ar gyfer gwella.

Mae lefel briodol o staff. Mae arweinwyr yn defnyddio staff yn dda i sicrhau bod y cwricwlwm yn cael ei gyflwyno'n effeithiol a bod staff yn gwneud y defnydd gorau o'u hamser, eu harbenigedd a'u profiad. Gwna'r ysgol ddefnydd da o weithdrefnau rheoli perfformiad a gwerthuso staff i gynllunio hyfforddiant. Mae hyn wedi cael effaith dda, er enghraifft, ar ddatblygu medrau Cymraeg staff ochr yn ochr â medrau Cymraeg disgyblion.

Yng ngoleuni safonau gwell y disgyblion a'r arweinyddiaeth dda, mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol gyda medrau islaw'r medrau a ddisgwylir o ddisgyblion o oedran tebyg. Erbyn iddynt adael yr ysgol, maent wedi gwneud cynnydd da yn eu dysgu ac yn cyflawni'n dda.

Yn 2012, roedd deilliannau disgyblion mewn asesiadau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen islaw deilliannau ysgolion tebyg (ysgol y mae ei disgyblion yn cael canran debyg o brydau ysgol am ddim). Ar gyfer y deilliant 5 disgwyliedig, mae canlyniadau yn golygu bod yr ysgol yn y 50% is o ysgolion tebyg ar gyfer iaith, llythrennedd a chyfathrebu ac yn y 25% isaf o ysgolion tebyg ar gyfer datblygiad mathemategol, datblygiad personol, cymdeithasol a diwylliannol ac ar gyfer dangosydd y Cyfnod Sylfaen (canran y disgyblion sy'n cyflawni'r deilliant 5 disgwyliedig mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu, datblygiad mathemategol a datblygiad personol, cymdeithasol a diwylliannol gyda'i gilydd). Ar gyfer y deilliant 6 uwch, roedd yr ysgol yn y 50% is o ysgolion tebyg ar gyfer iaith, llythrennedd a chyfathrebu, a datblygiad personol, cymdeithasol a diwylliannol ac yn y 25% isaf ar gyfer datblygiad mathemategol.

O gymharu ag ysgolion tebyg yn ei theulu (yr ysgolion hynny sy'n wynebu heriau tebyg), mae'r ysgol yn perfformio ychydig yn uwch na'r disgwyl.

Yn 2012, roedd deilliannau disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn dda iawn ac mae tuedd gynyddol o wella dros y pedair blynedd diwethaf. Ar gyfer y lefel 4 ddisgwyliedig a'r lefel 5 uwch, roedd yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg ar gyfer Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth a'r dangosydd pwnc craidd (canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd).

O gymharu ag ysgolion eraill yn ei theulu, roedd canlyniadau asesiadau 2012 yn dda iawn. Ar gyfer y lefel 4 ddisgwyliedig, yr ysgol oedd yn perfformio orau yn y teulu ar gyfer y dangosydd pwnc craidd a Saesneg, y trydydd gorau mewn mathemateg a phedwerydd mewn gwyddoniaeth. Ar gyfer y lefel 5 uwch, yr ysgol oedd yn perfformio orau yn gyson.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i’r holiadur i rieni a gofalwyr**

Ymatebodd un deg naw o rieni neu ofalwyr i’r holiadur.

Mae’r rhan fwyaf o rieni yn fodlon â’r ysgol ac yn credu:

- bod eu plentyn yn hoffi’r ysgol ac yn gwneud cynnydd da;
- bod yr addysgu’n dda;
- bod eu plentyn yn ddiogel yn yr ysgol;
- bod disgyblion yn cael cymorth priodol os bydd angen;
- bod yr ysgol yn helpu eu plentyn i fod yn fwy aeddfed a chymryd cyfrifoldeb;
- bod gwaith cartref yn adeiladu’n dda ar yr hyn y mae disgyblion yn ei ddysgu yn yr ysgol;
- bod eu plentyn yn cael ei baratoi yn dda ar gyfer symud ymlaen i’r ysgol uwchradd;
- eu bod yn gyfforddus ynglŷn â mynd at yr ysgol os oes ganddynt broblem;
- bod staff yn trin pob disgybl yn gyfartal ac yn eu parchu;
- bod disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol;
- bod yr ysgol yn helpu plant i ymgynefino’n dda; a
- bod ystod dda o deithiau neu ymweliadau.

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae ymatebion y rhieni a’r gofalwyr yn debyg i ymatebion ysgolion cynradd eraill ledled Cymru.

**Ymateb i’r holiadur i ddisgyblion**

Ymatebodd pum deg saith o ddisgyblion i’r holiadur.

Mae bron pob un ohonynt yn credu:

- eu bod yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol;
- bod yr ysgol yn eu haddysgu sut i fod yn iach;
- eu bod yn gwybod gyda phwy i siarad os ydynt yn poeni neu’n gofidio;
- eu bod yn cael digon o ymarfer corff;
- bod athrawon yn eu helpu i wneud cynnydd;
- eu bod yn gwybod i bwy i ofyn os ydynt yn cael eu gwaith yn anodd;
- eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol;
- bod digon o lyfrau ac offer ar gael iddynt wneud eu gwaith; a
- bod disgyblion yn ymddwyn yn dda yn y dosbarth ac amser egwyl ac amser cinio.

Mae safbwyntiau disgyblion yn fwy cadarnhaol am eu hysgol na disgyblion mewn ysgolion eraill yng Nghymru.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Richard Hawkley | Arolygydd Cofnodol |
| Enir Morgan | Arolygydd Tîm |
| Pauline Preston | Arolygydd Tîm |
| Ivor Petherick | Arolygydd Lleyg |
| Sarah Louise Rees | Arolygydd Cymheiriaid |
| Stephen Gardner | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.